
ASTUDIAETH ACHOS

SUT Y GALLWN NI GROESAWU ERAILL I'N BYD?

Defnyddiodd yr athrawes agweddau o'r gweithgaredd 'Sut y gallwn ni groesawu eraill i'n byd?' fel rhagflaenydd i astudio twristiaeth mewn Daearyddiaeth TGAU. Roedd y dysgwyr eisoes wedi dangos diddordeb mewn atyniad lleol i dwristiaid a oedd dan fygythiad o gau ac yn adnabod pobl a oedd yn gweithio yno.

Dechreuodd y dysgwyr gyda Thasg 2, gan fod yr athrawes yn gwybod ar sail trafodaeth ddosbarth, bod y dysgwyr yn deall beth oedd twristiaeth a bod ganddynt wybodaeth am ddeunyddiau ar gyfer hyrwyddo twristiaeth yn lleol. Fe ddechreuon nhw gyda'r ail dasg, 'Pam mae pobl yn ymweld â Chymru?' er mwyn archwilio data twristiaeth Cymru a datblygu eu sgiliau cymhwysedd digidol trwy ddefnyddio Excel i arddangos data.





Fe wnaeth edrych ar fanteision ac anfanteision cynyddu nifer y twristiaid i Gymru arwain y dysgwyr i fynegi eu pryderon am effaith twristiaeth ar gynefinoedd ac ecosystemau yn eu hardal leol, yn ogystal â phryderon ynghylch ail gartrefi ac Airbnb ar wasanaethau lleol.

Daeth y dysgwyr i wybod am nifer yr ail gartrefi ac Airbnb yn yr ardal trwy archwilio Nifer y cartrefi gwag ac ail gartrefi, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yna, fe wnaethant ystyried manteision ac anfanteision cynyddu nifer yr ail gartrefi ac Airbnb. Gan fynd yn ôl at Tirlun, bu dysgwyr yn ymchwilio i ddod o hyd i atyniadau i dwristiaid yn yr ardal leol a chanfod eu lleoliad ar fapiau. Yna, fe ddatblygon nhw eu syniadau eu hunain ynghylch yr anfanteision posibl i bobl sy'n byw ger yr atyniadau hyn, megis ychwanegiad at weithgareddau Tirlun. Cynhaliodd y dysgwyr arolygon electronig a phapur er mwyn darganfod sut roedd pobl leol yn ymdopi â byw yn agos at atyniad i dwristiaid, cyn cyflwyno eu canfyddiadau cyfunol i ddosbarth arall o ddysgwyr mewn gwers Ddaearyddiaeth.

Gan fod y maes llafur TGAU yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr astudio'r effeithiau cadarnhaol a negyddol a gaiff twristiaeth ar batrymau datblygiad anwastad, cyflogaeth, amgylchedd, diwylliant a seilwaith (mewn gwlad incwm isel a gwlad sydd newydd ei diwydianeiddio), rhoddodd yr athro y dasg i'r dysgwyr o ddefnyddio'r pwyntiau ffocws hyn i ddatblygu syniadau manylach ar gyfer yr ardal leol. Roedd hyn yn rhoi arweiniad nodedig o dda i'r gwaith TGAU y byddent yn ei wneud yn ddiweddarach.